**Adroddiad i'r:** **Cabinet**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **24 Medi 2013**

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** **Aelodau Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant a'r Aelod Arweiniol Tai a Datblygu Cymunedol**
**Cyfarwyddwr Moderneiddio a Lles**

**Awdur yr Adroddiad :** **Sally Ellis**

**Teitl: Protocol Tai â Chefnogaeth**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn nodi proses i alluogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau teg a chytbwys am leoliad "tai â chefnogaeth".

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae angen penderfyniad ar fabwysiadu'r protocol sydd ynghlwm yn Atodiad 1.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cabinet yn mabwysiadu'r protocol sydd ynghlwm yn Atodiad 1.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

4.1 "Tai â chefnogaeth" yw tai "Lle darperir cefnogaeth ochr yn ochr â darparu llety, ac mae'r gefnogaeth yn parhau i gael ei darparu yn yr eiddo hwnnw, hyd yn oed pan fo un person yn symud allan a pherson arall yn symud i mewn". Nid yw'n cynnwys cartrefi preswyl sy'n cael eu rheoleiddio gan AGGCC ac angen categori arbennig o ganiatâd cynllunio.

4.2 Gall tai â chefnogaeth gynnwys cynlluniau ar gyfer ystod eang o grwpiau gan gynnwys

- Pobl hŷn bregus
- Pobl gyda chyflyrau meddygol
- Pobl ifanc nad ydynt eto'n barod ar gyfer byw'n annibynnol
- Pobl sy'n ffoi rhag trais domestig
- Rheiny sy'n gadael sefydliadau (gan gynnwys cyn-droseddwyr) a
- Rheiny gyda phroblemau sy'n ymwneud ag alcohol a chyffuriau

4.3 Gall ystod o gyrff gyflwyno cynigion ar gyfer tai â chefnogaeth - gan gynnwys Tîm Anabledd Dysgu a Gwasanaethau Digartrefedd y Cyngor, gwasanaethau

a gomisiynwyd gan y Tîm Cefnogi Pobl, yn ogystal â chyrff allanol megis y Gwasanaeth Llety a Chefnogaeth Mechnïaeth ac eraill tebyg fel y Gwasanaeth Prawf neu BIPBC.  Ym mhob achos, mae'r tai â chefnogaeth a gynigir ar gyfer pobl leol.

4.4  Er y gall dod o hyd i leoliadau addas ar gyfer tai â chefnogaeth fod yn syml, gall hefyd fod yn fater dadleuol iawn mewn cymunedau lleol.  Gall hyn fod am amryw o resymau - diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o'r grŵp dan sylw, ymdeimlad o fod yn ddiamddiffyn, pryder am yr effaith ar brisiau tai, pryder ynghylch effaith datblygiad ar gymdogion agos neu grwpiau o unigolion.  Gall achosi gwrthdaro mewn cymunedau, arwain at ddiffyg ymddiriedaeth yn y Cyngor ac at ymddygiad sy'n wahaniaethol, gan gynnwys yn erbyn grwpiau a ddiogelir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Gall y cynigion hyn roi aelodau etholedig lleol mewn sefyllfa bron yn amhosibl lle gallant weld yr angen am gynllun, ond gall fod yn anodd lleisio hyn yn erbyn gwrthwynebiad lleol.

4.5  Yn yr un modd, mae unigolion lleol diamddiffyn angen llety addas.  Hebddo, daw anghenion pobl yn fwy difrifol, o ran iechyd a lles.   Nid ydynt yn gallu adeiladu cysylltiadau cymunedol sefydlog a chymryd rhan mewn bywyd normal - gan gynnwys mewn addysg a chyflogaeth, ac yn achos y rhai a fu'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol, daw ymddygiad troseddol ailadroddus yn fwy tebygol.

4.6  Mae angen i bobl ddiamddiffyn hefyd wybod eu bod yn byw yn rhywle a fydd yn eu derbyn.  Mae'r dystiolaeth yn dangos eu bod yn fwy tebygol o ddioddef o aflonyddu eu hunain nag o fod y rhai sy'n aflonyddu.

4.7  Ar hyn o bryd, nid oes system ffurfiol ar gyfer y Cyngor i ystyried yr holl safbwyntiau a gwneud penderfyniad rhesymegol am leoliad arfaethedig. Gall hyn arwain at fethiant olynol i ddod o hyd i leoliadau ar gyfer cynlluniau y mae angen dybryd amdanynt.  Weithiau, mae'r system gynllunio wedi cael ei defnyddio fel ffordd o geisio penderfyniad, ond ar ei ben ei hun nid yw hyn yn foddhaol ac nid yw'n arwain at yr holl faterion yn cael eu hystyried yn briodol.

4.8  Mae'r protocol sydd ynghlwm yn Atodiad 1 wedi cael ei ddatblygu gan swyddogion o nifer o adrannau (gwasanaethau cymdeithasol, Tai, Cynllunio, Cefnogi Pobl, gyda mewnbwn gan yr Adain Gyfreithiol) ar y cyd â'r ddau Aelod Arweiniol perthnasol, cynrychiolwyr o bob un o'r grwpiau gwleidyddol a'r Cefnogwr Digartrefedd.   Mae wedi defnyddio deunydd o brotocol tebyg a ddatblygwyd yn Wigan ond mae'n seiliedig i raddau helaeth ar brofiad swyddogion ac aelodau Sir Ddinbych dros nifer o flynyddoedd a thrwy gynigion syml a hynod ddadleuol.

4.9  Mae'r protocol yn nodi ymagwedd ofalus er mwyn gwneud penderfyniadau ynglŷn â lleoliad arfaethedig tai â chefnogaeth. Mae nodweddion allweddol yn cynnwys

- diffinio pa wybodaeth fydd yn cael ei rhannu gyda phwy ac ar ba gam
- ymagwedd strwythuredig tuag at gasglu gwybodaeth am safle penodol dan sylw a'i gryfderau a'i wendidau

- ymagwedd strwythuredig tuag at nodi unrhyw faterion cynllunio yn gynnar
- dull clir i nodi “sensitifrwydd” posibl cynllun posibl er mwyn sicrhau bod pawb sy’n gysylltiedig yn cael eu hystyried a'u trin yn deg
- dulliau a argymhellir ar gyfer rhannu gwybodaeth am gynlluniau gyda'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf
- Sefydlu yn “Panel Tai â Chefnogaeth”, sy'n adrodd i'r Cabinet, a fyddai'n gwneud argymhellion ar leoliad arfaethedig ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a’r safbwyntiau

**4 Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Dau o flaenoriaethau corfforaethol y cyngor yw sicrhau

Bod pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosib

A

Sicrhau bod tai o ansawdd da ar gael

**5 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae delio â chynigion ar gyfer tai â chefnogaeth eisoes yn cymryd cyfran sylweddol o amser swyddogion. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd y cynigion yn ddadleuol ac yn denu gwrthwynebiad cymunedol. Er nad ydynt yn niferus, maent yn cymryd llawer iawn o amser pan maent yn codi. Dylai gweithio gyda'n gilydd drwy broses y cytunwyd arni helpu lleihau'r galw ar amser yn ogystal â galluogi consensws. Bydd goblygiadau o ran adnoddau gweinyddol sy'n deillio o wasanaethu'r Panel Llety Arbenigol. Cynigir y byddai'r adnodd hwn yn cael ei ddarparu gan y Tîm Cefnogi Pobl neu'r Adran Dai.

**6 Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

Prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yw y bydd y protocol yn lliniaru rhai o'r achosion mwyaf difrifol o wahaniaethu a all godi pan fydd cynigion tai â chefnogaeth yn cael eu cyflwyno.

**7 Pa ymgynghori a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Nid yw'r protocol wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio. Fodd bynnag, ymgynghorwyd â’r darparwyr tai â chefnogaeth, drwy gyfarfodydd clwstwr Cynghorau Tref a Chymuned, gyda chynrychiolwyr y defnyddwyr gwasanaeth a phob un o'r Grwpiau Ardal yr Aelodau. Yn gyffredinol rodd pob un o’r rhai yr ymgynghorwyd â nhw yn cefnogi egwyddor y protocol ac awgrymwyd cynnwys diwygiadau i gryfhau/ egluro prosesau. Roedd y rhain yn ymwneud, er enghraifft, â’r angen i gynnwys diffiniad o dai â chefnogaeth, i gynnwys cyfeiriad mwy penodol at Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac i gynnwys diffiniad o “ymgynghori” ac amserlen glir ar gyfer adolygu'r Protocol.

Roedd defnyddwyr gwasanaeth (cafodd 9 eu cyfweld) yn gyffredinol gefnogol i'r protocol ac yn awyddus i weld nifer o ddulliau i hysbysu cymunedau ac aelodau etholedig am anghenion a chyflawniadau pobl mewn tai â chefnogaeth e.e. drwy ddatblygu adnoddau cyfryngau. Maent yn awyddus i weld cynnwys prosiectau presennol mewn datblygiadau newydd, eisiau i gymunedau lleol gael gwybodaeth gytbwys ac roeddent yn awyddus bod aelodau etholedig yn deall bod proffil pobl mewn tai â chefnogaeth yn newid yn rhannol oherwydd diwygio lles.

Roedd safbwyntiau negyddol gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw yn cynnwys: y farn bod y protocol yn ddelfrydol ac ni fydd yn gweithio, y potensial iddo fod yn broses hirwyntog, pryder am dryloywder ac na fyddai'r cyhoedd yn cael eu cynnwys tan yn hwyr yn y broses (clwstwr Dyffryn Dyfrdwy), barn y dylai penderfyniadau ar leoliad gael eu cymryd yn lleol, nid gan y Cabinet (MAG Rhyl), lleisiwyd pryderon penodol am ddarparwyr tai penodol, a phryderon y gallai datblygu carchar yn Wrecsam arwain at alw am fwy o dai â chefnogaeth yn Sir Ddinbych (Dyffryn Dyfrdwy a Mags Rhyl).

**8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Gellir darparu'r adnodd gweinyddol a nodwyd i gefnogi'r Panel Llety o fewn cyllidebau gweinyddu Cefnogi Pobl presennol.

**9 Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'n bosibl y gallai'r gofyniad i gydymffurfio â'r protocol ei gwneud yn fwy anodd i sefydlu cynlluniau nag y bu yn y gorffennol, neu bydd yn cymryd mwy o amser i gael cytundeb.

Mae cynlluniau weithiau wedi dod i fodolaeth "o dan y radar" ac nid ydynt wedi achosi unrhyw broblemau. Mae'r matrics sensitifrwydd yn ceisio delio â hyn trwy ddarparu ymagwedd ysgafn at gynlluniau nad ydynt yn ddadleuol - ond mae'n parhau yn risg. Mae'n bosibl na fydd dull Panel yn arwain at well datrysiad o fater cymunedol anodd. Argymhellir bod gwaith y protocol yn cael ei adolygu ar ôl blwyddyn fel y gellid cymryd ymagwedd arall os nad yw'n profi'n ddefnyddiol.

**Pŵer i wneud y Penderfyniad**

A 111 o Ddeddf LlL 1972
Deddf Cydraddoldeb 2010